# CYNIGION CYLLIDEBOL TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH 2011-12

Mae cynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith yn ymddangos yn:-

Tabl A – Cyllideb Refeniw 2011-12;
Tabl B – Cynllun a Chyllideb Cyfalaf 2011-12.
Tabl C – Dangosyddion Pwyllog

Mae'r manylion isod yn dilyn gofynion Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb:-

**(i) <u>os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol a ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfo gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw wahaniaethau</u>**

Ffurfiwyd y gyllideb arfaethedig gan ystyried y strategaeth cyllidol refeniw tymor canolig a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2010. Awgrymir hefyd diweddariad i'r strategaeth yna.

**(ii) <u>y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn</u>**

Mae'r Dreth Gyngor arfaethedig yn ffigwr o £855.90 yn ôl Band D, cynnydd o 3.7% ar 2010-11. Yn eu praesept nhw mae Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi penderfynu ar gynnydd 4%. Gan ddibynnu ar beth fydd praesept y Cynghorau Tref neu Gymuned disgwylir y bydd y cyfanswm sy'n daladwy gan drethdalwyr yn godi o rhyw 3.7%.

**(iii) <u>trosglwyddiadau arfaethedig i'r arian wrth gefn ac ohonynt</u>**

Rhoddir i un ochr hyd at £2.5m o'r arian wrth gefn i gyllido costau diswyddo. Trefnir rhain fel benthyciadau mewnol gyda'r disgwyliad bydd ad-daliadau o'r cyllidebau gwasanaeth yn ychwanegu i'r arian wrth gefn o 2012-13.

**(iv) <u>crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth</u>**

Cyflwynir manylion yn Nhabl A ar gyfer y gyllideb refeniw a gwelir manylion y cyllideb gyfalaf yn Nhabl B.

**(v) <u>manylion am newidiadau sylweddol i gyflenwi gwasanaeth oherwydd y gyllideb</u>**

Yn bennaf, mae'r newidiadau sylweddol fel y manylir yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

Mae'r gyllideb a'r strategaeth tymor canolig hefyd yn rhoi i un ochr arian ar gyfer Buddsoddi mewn Cost Newid, sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a'r prosiectau Cydweithio.

**(vi) <u>i ba raddau y mae'r cynigion yn gwneud lwfans ar gyfer adroddiadau pwyllgorau</u>**

Lluniwyd y cynigion terfynol ar ôl ymgynghori gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini a cymerir ystyriaeth o'u hymateb. Mae hefyd yn ystyried penderfyniadau'r Panel Tâl a Graddfeydd.

**(vii) <u>i ba raddau mae'r cynigion yn gwneud lwfans am waith ymgynghori a wnaed</u>**

Daw'r Cynigion yn dilyn ymgynghori yn sesiynau 'Hawl i Holi' gyda'r cyhoedd a'r ymatebion o'r cyfranddalwyr, yn cynnwys y Fforwm Ysgolion.

**(viii)** **manylion am wahaniaethau sylweddol eraill rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol**

Y prif wahaniaethau rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol yw:-

- i leihau cynnydd arfaethedig y Dreth Cyngor o 4.3% i 3.7%;
- cynnig lleihad o 10% yng nghyfradd rhan fwyaf o lwfansau'r aelodau;
- gohirio tan 2012-13 yr ad-daliad mewnol o gostau diswyddo;
- i leihau'r swm i'w dynnu o gyllidebau'r ysgolion.

**(ix)** **cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn**

Manylir yn ffurfiol ar y rhain yn y penderfyniad cyllidebol arfaethedig.

**(x)** **cynigion ar gyfer benthyca**

Mae'r cynigion ar gyfer benthyca a buddsoddi yn ymddangos mewn adroddiad ar wahan gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Dangosyddion Pwyllog fel yn Nhabl C.

**(xi)** **unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn**

Gweler adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid).